

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
Gorchymyn Cydgrynhoi (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a
Llwytho a Mannau Parcio ar y Stryd) 2019 (Gorchymyn Diwygio
Arbrofol Rhif 2) 2021

**Dirymu a Darparu Arbrofol o ran Mannau Aros, Mannau Llwytho,
Mannau Parcio i Bobl Anabl a Mannau Parcio ar y Stryd
Heol Hanbury, Bargod; Y Stryd Fawr Uchaf, Bargod; Y Stryd Fawr, Coed
Duon; Stryd Clive, Caerffili; Victoria Terrace, Trecelyn; Tredegar Street,
Rhisga; a Commercial Street, Rhisga**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ('y Cyngor'), wrth weithredu ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ('Deddf 1984') a Deddf Rheoli Traffig 2004 ('Deddf 2004') a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

1 ENWI A CHYCHWYN

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar <DATE> <MONTH> 2021 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cydgrynhoi (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio ar y Stryd) 2019 (Gorchymyn Diwygio Arbrofol Rhif 2) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2021.

2 EFFAITH Y GORCHYMYN

Diwygir Gorchymyn Cydgrynhoi (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio ar y Stryd) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2019 drwy:

- a) Dirymu Cynlluniau O49, P49, P101, T59, AB60, AH86 ac AI88 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn a mewnosod Cynlluniau O49A, P49A, P101A, T59A, AB60A, AH86A ac AI88A i'r Gorchymyn hwn.

Bydd y gorchymyn arbrofol am gyfnod o ddeunaw mis ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd y Cyngor yn ystyried a fydd darpariaeth y gorchymyn hwn yn parhau i fod mewn grym am gyfnod amhenodol. Gall y Pennaeth Isadeiledd, gan weithredu ar ran y Cyngor, derfynu'r arbrawf, neu ei addasu, os bydd angen gwneud hynny am resymau diogelwch, yn ei farn ef, o fewn y chwe mis cyntaf.

Rhodddwyd dan sêl gyffredin Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

ar _____ 2021

Gosodwyd sêl gyffredin

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

yma ym mhresenoldeb

Swyddog Awdurdodedig